*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid 01745 535282** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'r Aelodau, a cheisio dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig terfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Goledd Cymru (yr Awdurdod) gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a llunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r ddogfen yn esbonio prosesau a gweithdrefnau llywodraethu'r Awdurdod, sy'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

3 Lluniwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drwy ddefnyddio Ffamwaith CIPFA/Solace, *Delivering Good Governance in Local Government* Framework (2016).

4 Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r amserlenni ar gyfer archwilio'r Datganiadau Ariannol.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr Aelodau'n:

- **i** nodi cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yr Awdurdod 2018/19; a
- **ii** diprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol archwiliedig terfynol 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

6 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11, rhaid i bob corff llywodraeth leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw darparu adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n cynnwys esboniad o'r modd y mae'r Awdurdod wedi monitro pa mor effeithiol yw ei drefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno ac unrhyw newidiadau arfaethedig yn y cyfnod i ddod.

## GWYBODAETH

9 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei lunio yn unol â'r egwyddorion sydd yn y ddogfen gyfarfwyddyd *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (CIPFA/Solace 2016).*

10 Mae fformat y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gyson â phob un o'r saith egwyddor graidd yn fframwaith CIPFA/Solace.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae llywodraethu da yn rhywbeth hanfodol i gyflawni amcanion cyffredinol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Nid oes unrhyw bwysau ychwanegol o ran costau. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ystyried ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cynnal yn y Gwasanaeth. |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, sy'n mynnu bod pob corff perthnasol yn llunio Datganiad. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol eraill i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad. |
| Staffio | Amodau gwaith gwell i'r staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Tynnir sylw at risgiau, a sefydlir mesurau rheoli yn y cynllun. |